



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio



Tîm Bioamrywiaeth  
Cangen Bioamrywiaeth a Cadwraeth Natur  
Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR

e-bost: [biodiversity@wales.gsi.gov.uk](mailto:biodiversity@wales.gsi.gov.uk)

Lluniau'r clawr trwy garedigrwydd Vaughn Matthews, Michael J. Clarke, Jo Mullett,  
Bumblebee Conservation Trust a Suzanne Moore Osley

WG18155

© Hawlfraint y Goron 2013

ISBN 978-1-4734-0033-7

## Rhagair y Gweinidog



Amcangyfrifir bod pryfed peillio yn werth o leiaf £430 miliwn y flwyddyn i'r DU, sy'n golygu bod peillio'n wasanaeth ecosystem hanfodol bwysig. Fodd bynnag, er eu pwysigrwydd, mae niferoedd pryfed peillio wedi bod yn dirywio dros y 30 mlynedd diwethaf, ac os na wnawn ni weithredu yn awr, bydd y duedd hon yn parhau.

Mae pryfed peillio yn elfen hollbwysig o'n bioamrywiaeth. Mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae yn ein heconomi wrth ystyried y diwydiannau bwyd a ffermio, a'r cysylltiad cryf rhwng bywyd gwylt a thwristiaeth yng Nghymru. Maent yn bwysig i fywyd yn y cynefinoedd yn ein dinasoedd, gan gynnwys ein parciau, ein gerddi a'n dyfrffyrdd trefol, felly mae'r ffaith bod eu niferoedd yn gostwng yn destun pryder. Yn wir, roedd yr adroddiad diweddar ar Sefyllfa Byd Natur, a gyhoeddwyd gan gonsortium o sefydliadau bywyd gwylt, yn tynnu sylw at golli pryfed peillio ymhlith nifer o rywogaethau eraill, ac mae hyn wedi rhoi mwy o sbardun i ni ddynodi'r blaenoriaethau bioamrywiaeth ar gyfer Cymru, a chael strategaeth i gyflawni'r rhain.

Mae cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yn gam pwysig tuag at gyflawni'r uchelgais hon. Bydd ein dull gweithredu ar gyfer y cynllun pryfed peillio hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau dull gweithredu integredig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Drwy'r dull gweithredu hwn, bydd modd gwneud pob penderfyniad sy'n effeithio ar adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau posibl. Mae'n ffordd o edrych ar ein hadnoddau naturiol ein hunain a phenderfynu sut gellir sicrhau'r manteision mwyaf i bobl o safbwynt swyddi, eu bywoliaeth a'u hiechyd, dros y tymor hir.

Roedd y cyfraniadau brwdfrydig i lunio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yn galonogol iawn, gan ystyried yr ymateb cadarnhaol a'r atebion manwl a dderbyniwyd gan y cyhoedd. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu data a gwybodaeth ac wedi ymateb mewn ffordd mor adeiladol. Mae'r ffaith ein bod wedi llunio'r cynllun hwn, sef y cynllun cyntaf o'i fath yn y DU, yn dangos ein hymrwymiad a'n bwriad i weithredu, ac yn gosod y sail strategol ar gyfer gweithredu. Mae hefyd yn fan cychwyn wrth i ni ddechrau ei roi ar waith a dod o hyd i flaenoriaethau a champau gweithredu eraill.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn roi cynllun ar waith i bennu cyfeiriad ac i gyflawni ein nod o arafu a gwrthdroi'r prinhad hwn yn nifer y pryfed peillio yma yng Nghymru.

Alun Davies AC  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

## Crynodeb

Mae pryfed peillio yn elfen hanfodol o'n hamgylchedd. Mae gwenyn mêl a phryfed peillio gwyllt, gan gynnwys cacwn, gwenyn unigol, gwenyn meirch parasitig, pryfed hofran, glöynnod byw a gwyfynod a rhai chwilod, yn bryfed peillio pwysig yng Nghymru, ar gyfer cnydau fel olew had rôp a ffrwythau, meillion a phlanhigion eraill sy'n sefydlogi nitrogen sy'n bwysig i wella cynhyrchiant systemau pori ar gyfer da byw a blodau gwyllt.

Yn 2007, roedd peillio'n werth £430 miliwn i farchnad gnydau'r DU. Pe baem yn colli'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, amcangyfrifir y byddai peillio â llaw yn costio £1.8 biliwn y flwyddyn yn y DU. Mae gwerth y mêl a gynhyrchir yng Nghymru yn sylweddol hefyd, gyda gwerth cyfanwerthol o dros £2 miliwn yn 2011.

Fodd bynnag, mae iechyd gwenyn a phryfed peillio a'r dirywiad yn eu poblogaethau yn peri pryder mawr yn y DU ac yn fyd-eang. Y prif feysydd pryder i bryfed peillio yw defnyddio tir yn fwy dwys, dinistrio neu ddarnio cynefinoedd, clefydau, defnyddio agrogemegau, a newid yn yr hinsawdd, ond nid yw pwysigrwydd pob un o'r rhain, a'r berthynas sydd rhyngddynt, mor hysbys i bobl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid i archwilio'n fanylach y dystiolaeth a'r pryderon ynghylch pryfed peillio a'u cadwraeth yng Nghymru. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yn pennu'r weledigaeth strategol, y canlyniadau a'r meysydd gweithredu i wella amodau i bryfed peillio a gweithio i atal a gwrthdroi'r dirywiad yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn disgrifio'r sefyllfa bresennol yng Nghymru ac yn nodi meysydd lle mae angen gweithredu. Mae'n rhoi manylion ein Gweledigaeth ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru, ac yn gosod hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn amlinellu Agenda ar gyfer Gweithredu – y canlyniadau a'r meysydd gweithredu a nodwyd a sut y byddwn yn gweithio tuag atynt. Dyma'r pedwar prif ganlyniad:

Canlyniad 1: Mae gan Gymru bolisi a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio

Canlyniad 2: Mae Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig sy'n llawn blodau i gynnal ein pryfed peillio

Canlyniad 3: Mae gan Gymru boblogaethau iach o bryfed peillio

Canlyniad 4: Mae pobl Cymru yn fwy gwybodus ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli

Y cam cyntaf tuag at roi'r Cynllun ar waith fydd sefydlu Tasglu Pryfed Peillio, a bydd cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi ar wahân.

# Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Beth yw Pryfed Peillio?</li><li>• Beth sydd ei angen ar Bryfed Peillio?</li><li>• Pam mae angen i ni weithredu?</li><li>• Beth yw'r prif fygythiadau?</li><li>• Y Cynllun Gweithredu</li></ul>	
2.	Y Sefyllfa yng Nghymru	6
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Poblogaethau Pryfed Peillio</li><li>• Y prif feysydd pryder</li><li>• Ymchwil a Mentrau</li><li>• Llywodraethu a Seilwaith</li></ul>	
3.	Ein Gweledigaeth ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru	15
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rheoli Adnoddau Naturiol</li><li>• Bioamrywiaeth</li><li>• Strategaethau Eraill Llywodraeth Cymru</li></ul>	
4.	Agenda ar gyfer Gweithredu	19
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Canlyniadau</li></ul>	
5.	Rhoi'r Cynllun ar waith	22

# 1. Cyflwyniad – Beth sy'n mynd ymlaen?

Mae pryfed peillio yn elfen hanfodol o'n hamgylchedd. Mae gwenyn mêl yn bryfed sy'n cael eu cadw i beillio cnydau, ac maent hefyd yn darparu mêl i ni. Mae pryfed peillio gwyllt, gan gynnwys cacwn, gwenyn unigol, gwenyn meirch parasitig, pryfed hofran, glöynnod byw a gwyfynod a rhai chwilod, hefyd yn bryfed peillio pwysig yng Nghymru, ar gyfer cnydau fel olew had rêp a ffrwythau, meillion a phlanhigion eraill sy'n sefydlogi nitrogen sy'n bwysig i wella cynhyrchiant systemau pori ar gyfer da byw a blodau gwyllt. Maent yn cyfrannu at amrywiaeth rhywogaethau planhigion, cynefinoedd a bywyd gwyllt yng Nghymru, yn ogystal â'i gwydnwch a'i harddwch naturiol. Maent yn darparu bwyd, yn gwneud Cymru yn lle gwell i bobl ei fwynhau ac i ymweld ag ef ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ein heconomi.

## ***Beth yw Pryfed Peillio?***

Yn y cynllun hwn, mae pryfed peillio yn cynnwys pob math o wenyn, rhai gwenyn meirch, glöynnod byw, gwyfynod a phryfed hofran, rhai chwilod a chlêr.

Mae **gwenyn a gwenyn meirch** yn casglu paill a neithdar o flodau i fwydo eu hunain a'u hepil ifanc. Mae planhigion blodeuol wedi esblygu i fanteisio ar hyn drwy gynnig neithdar i'r pryfed sydd fwyaf tebygol o gario eu paill i blanhigyn arall.

Gwenyn mêl sy'n cael eu cadw'n bennaf i beillio cnydau. Weithiau, caiff cychod gwenyn mêl modern eu symud o gnwd i gnwd, a gall ceidwaid gwenyn godi tâl am eu gwasanaethau peillio a chynaeafu'r mêl a chynhyrchion eraill. Fe'u defnyddir i beillio cnydau fel perllannau a ffrwythau meddal (teulu'r rhosyn), olew had rêp a chnydau brasica eraill (teulu'r bresych) a phys a ffa (codlysiau).

Mae cacwn a gwenyn unigol hefyd yn bryfed peillio pwysig sy'n helpu i gynnal poblogaethau o blanhigion gwyllt a chynhyrchu cnydau masnachol, yn enwedig perllannau a ffrwythau meddal a chnydau a ddiogelir fel tomatos. Mae pecynnau pryfed peillio ar gael i'w defnyddio mewn tai gwydr masnachol sy'n defnyddio cacwn anffodorol, neu rai o'r DU ond a gynhyrchwyd y tu allan i'r DU. Fel rheol, caiff y breninesau eu dal a chaiff y nythfeydd eu dinistrio ar ddiwedd y tymor tyfu.

Yn aml, mae gwenyn meirch yn bwydo ar neithdar wrth chwilio am bryfed eraill all fod yn blâu ar gnydau i fwydo arnynt.

Mae **glöynnod byw a gwyfynod** yn peillio planhigion i wahanol raddau wrth i'r oedolyn fwydo ar neithdar. Nid ydynt yn bwysig o ran peillio cnydau bwyd yn y DU ond maent yn peillio llawer o flodau gwyllt.

Mae **pryfed hofran** yn doreithiog ar flodau drwy'r flwyddyn bron ac mae'r oedolion yn bwydo ar neithdar a phaill. Mae moron ac afalau'n enghreifftiau o gnydau sy'n elwa o beillio gan bryfed hofran. Fodd bynnag, mae'r larfau'n bwyta deiet mwy amrywiol o lawer sy'n cynnwys pryfed eraill yn aml. Oherwydd hyn, defnyddir rhywogaethau ysglyfaethus o bryfed hofran fel rhan o Raglen Integredig ar gyfer Rheoli Plâu (IPM) fel cyfryngau rheoli biolegol.

## ***Beth sydd ei angen ar Bryfed Peillio?***

Mae ar bryfed peillio angen bwyd ar ffurf paill a neithdar o amrywiaeth o rywogaethau planhigion blodeuol; ac adeiledd llystyfiant amrywiol, e.e. gwrychoedd, prysg a gwair hir i gael cysgod, lle i nythu a threulio'r gaeaf ynddo, er enghraifft tyllau a boncyffion coed. Mae gan gyfnodau llawer o bryfed peillio fel larfau hefyd lawer o ofynion gwahanol. Er mwyn cynnal amrywiaeth o rywogaethau pryfed peillio, mae angen i ffynonellau neithdar fod ar gael o ddechrau'r gwanwyn tan ddiwedd yr hydref.

Er bod y rhan fwyaf o wenyn mêl yn cael lloches a ddarperir ar eu cyfer, mae angen i'r holl bryfed peillio gael cynefinoedd lled-naturiol megis dolydd blodau gwyllt, gwrychoedd/perthi ac ymylon coetiroedd, a thirweddau amaethyddol sy'n cynnwys glaswelltir heb ei wella, gweirgloddiau, glaswelltiroedd sy'n llawn meillion, perllannau a chnydau â'r. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynefinoedd a'r defnyddiau tir hyn yn prinhau neu'n brin iawn yng Nghymru.

Gellir darparu bwyd a chysgod iddynt hefyd mewn gerddi, parciau, ymylon ffyrdd ac unrhyw fan agored arall. Mae'n gymharol hawdd darparu ar gyfer pryfed peillio, er enghraifft drwy blannu neu gadw rhywogaethau priodol o blanhigion megis y bengaled gyffredin mewn dolydd blodau gwyllt, meillion cochion ar dir pori, drain gwynion a mieri mewn gwrychoedd a choetiroedd a chosmos mewn gwelyau blodau.

## ***Pam mae angen i ni weithredu?***

Mae manteision lu i gefnogi ein pryfed peillio. Maent yn rhan hanfodol o ecosystemau iach, gan ddarparu, er enghraifft:


- bwyd – yn uniongyrchol ar ffurf mêl, ac yn anuniongyrchol ar ffurf cnydau
- amgylchedd amrywiol, gweithredol a deniadol

a chefnogi:

- iechyd a lles
- twristiaeth
- economïau gwledig
- mannau gwyrdd trefol

Mae Ffigur 1 yn dangos y cysylltiad rhwng y gwasanaethau ecosystem hyn a'r manteision i gymdeithas.





Ffigur 1: Y cysylltiad rhwng peillio a gwasanaethau ecosystem, a'u manteision i gymdeithas. Mae peillio'n broses ecolegol; hebddi, ni fyddem yn derbyn llawer o'r gwasanaethau darparu, rheoli a diwylliannol eraill, na'r manteision i gymdeithas.

Yn 2007, roedd peillio yn werth £430 miliwn i farchnad gnydau'r DU<sup>1</sup>. Er nad oedd modd mesur y gwerth yng Nghymru, rydym yn gwybod bod pryfed peillio'n hollbwysig i gynnal llawer o fathau o lystyiant ar draws holl gynefinoedd tir Cymru. Pe baem yn colli'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, amcangyfrifir y byddai peillio â llaw yn costio £1.8 biliwn y flwyddyn yn y DU<sup>2</sup>. Mae gwerth y mêl a gynhyrchir yng Nghymru yn sylweddol hefyd, gyda gwerth cyfanwerthol o dros £2 miliwn yn 2011<sup>3</sup>.

Fodd bynnag, mae iechyd gwenyn a phryfed peillio a'r dirywiad yn eu poblogaethau yn peri pryder mawr yn y DU ac yn fyd-eang. Mae gwenyn mêl wedi gostwng 23% yng Nghymru rhwng 1985 a 2005<sup>4</sup>. Mae glöynnod byw, pryfed hofran a llawer o rywogaethau o wyfynod hefyd yn prinhaus ledled Cymru. Mae dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd lled-naturiol pwysig eraill hefyd yn prinhaus.

<sup>1</sup> Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol (NEA) y DU, 2011, The UK National Ecosystem Assessment Technical Report. UNEP-WCMC, Caergrawnt.

<sup>2</sup> Breeze TD, Roberts SPM, Potts SG, 2012, The decline of England's Bees, Prifysgol Reading a Cyfeillion y Ddaear <http://www.foe.co.uk/resource/briefings/beesreport.pdf>

<sup>3</sup> Amcangyfrif yr Uned Wenyn Genedlaethol ar sail gwybodaeth gan Arolygwyr Gwenyn.

<sup>4</sup> NEA megis cynt.



## ***Beth yw'r prif fygythiadau?***

Y prif feysydd pryder i bryfed peillio yw defnyddio tir yn fwy dwys, dinistrio neu ddarnio cynefinoedd, clefydau, defnyddio agrogemegau a'r newid yn yr hinsawdd<sup>5</sup>.

Mae pwysigrwydd y pryderon hyn ac i ba raddau y mae cydberthynas rhyngddynt yn destun gwaith ymchwil fel y Fenter Pryfed Peillio ar hyn o bryd.<sup>6</sup>

## ***Y Cynllun Gweithredu***

Roedd yr Aseiad Ecosystemau Cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn 2011, yn tynnu sylw at y dirywiad yn niferoedd pryfed peillio. Yn sgil galw gan randdeiliaid, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid i archwilio'n fanylach y dystiolaeth a'r pryderon ynglŷn â phryfed peillio a'u cadwraeth yng Nghymru.

Rydym wedi dilyn camau Fframwaith y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem<sup>7</sup>, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, i nodi'r rhanddeiliaid allweddol, deall y sbardunau, y materion a'r cyfleoedd allweddol a phennu'r weledigaeth a'r amcanion. Cynhyrchodd ein rhanddeiliaid restr hir o opsiynau, a chafwyd ymgynghoriad am gynllun drafft yng ngwanwyn 2013. Mae'r cynllun terfynol hwn yn pennu'r weledigaeth strategol, y canlyniadau a'r meysydd gweithredu i wella amodau i bryfed peillio a gweithio i atal a gwrthdroi'r dirywiad yn eu niferoedd yng Nghymru. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i gyflawni gan grŵp cyflawni pryfed peillio, o fewn Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru.

Bydd egwyddorion rhagofal, ymyrraeth gynnar ac osgoi'r risg o effeithiau economaidd negyddol yn cael eu mabwysiadu yn y camau gweithredu i rwystro pryfed peillio yng Nghymru rhag prinhaus ymhellach.

Mae Adran 2 y cynllun hwn yn disgrifio'r sefyllfa bresennol yng Nghymru ac yn nodi meysydd lle mae angen gweithredu.

Mae Adran 3 yn rhoi manylion ein Gweledigaeth ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru, ac yn gosod hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru.

---

<sup>5</sup> Vanbergen, AJ a'r Fenter Pryfed Peillio, 2013, [Threats to an ecosystem service: pressures on pollinators](https://doi.org/10.1890/120126), *Frontiers in Ecology and the Environment* doi:10.1890/120126

<sup>6</sup> wedi'i ariannu gan Defra (hefyd ar ran Llywodraeth Cymru) a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC), Llywodraeth yr Alban a'r Wellcome Trust. [www.insectpollinatorsinitiative.net](http://www.insectpollinatorsinitiative.net)

<sup>7</sup> Defnyddio Dull Rheoli'r Ecosystem: Fframwaith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013.

Mae Adran 4 yn amlinellu Agenda ar gyfer Gweithredu – y canlyniadau a'r meysydd gweithredu a nodwyd a sut y byddwn yn gweithio tuag atynt.

Mae Adran 5 yn rhoi rhagor o fanylion am y camau nesaf ac am y camau gweithredu tymor byr y mae angen bwrw ymlaen â nhw. Caiff y Cynllun Gweithredu ei gyhoeddi ar wahân fel dogfen sy'n esblygu.

## 2. Y Sefyllfa yng Nghymru – Ble rydym ni arni nawr?

Mae llawer o dystiolaeth o ddirywiad eang yn niferoedd pryfed peillio'n fyd-eang a ledled y DU, ac o'r prif resymau pam eu bod yn prinhaus, er enghraifft, yn Vanbergen et al<sup>8</sup>. Mae'r dystiolaeth hon wedi cael ei chymharu â data ac â'r sefyllfa bresennol yng Nghymru i ganfod y materion mwyaf perthnasol. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy o ymchwil er mwyn cael gwybod beth yw statws a thueddiadau pryfed peillio, a'r pwysau rhyngweithio sydd arnynt.

### ***Poblogaethau pryfed peillio***

#### **Pryfed peillio cadw**

Mae'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) yn cadw cofrestr o geidwaid gwenyn yng Nghymru a Lloegr (Beebase) sy'n dangos bod 2,702 o geidwaid gwenyn, gyda 3,511 o wenynfeydd a 14,635 o nythfeydd gwenyn mêl yng Nghymru.

Fodd bynnag, amcangyfrifir bod yna 25% arall o geidwaid gwenyn nad ydynt wedi'u cofrestru ar Beebase, a fyddai'n cynyddu'r cyfansymiau i 3,377 o geidwaid gwenyn, 4,388 o wenynfeydd a 18,294 o nythfeydd gwenyn mêl yng Nghymru.

Bob blwyddyn, mae ceidwaid gwenyn newydd yn cofrestru ar Beebase ac mae'r aelodau newydd hyn wedi cynyddu bob blwyddyn yng Nghymru, o 102 yn 2007 i 404 yn 2011 (gyda gostyngiad i 256 yn 2012), sy'n dangos twf poblogrwydd cadw gwenyn fel hobi, er bod 40% o nythfeydd gwenyn mêl yn cael eu rheoli'n fasnachol.

Yn 2011, cynhyrchwyd 427 tunnell o fêl yng Nghymru ag iddo werth cyfanwerthol o dros £2 miliwn<sup>9</sup>.

#### **Pryfed peillio gwyllt**

#### **Cacwn a gwenyn unigol**

Mae cryn dystiolaeth o ddirywiad y rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn yn y DU, a gallwn ddweud â sicrwydd bod gwasgariad llawer o rywogaethau a oedd unwaith yn fwy eang yng Nghymru wedi crebachu'n sylweddol. Fel arfer, mae poblogaethau mewndirol rhywogaethau megis y gardwenynen feinlais, y gardwenynen lwydfrown<sup>10</sup> a'r wenynen gorniog wedi'u colli gan fod yr ardaloedd sy'n weddill o gynefinoedd lled-naturiol ar iseldir yn tueddu i fod yn fach ac yn ddarniog, gyda chysylltiadau gwael rhyngddynt. Mae'r poblogaethau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i gynefinoedd arfordirol – lle mae glaswelltiroedd, rhosydd a thwyni'n goroesi ac yn weddol gyfan. Dim ond ar ddau safle y mae'r saerwenynen fawr yn goroesi yn y DU, ac mae'r ddau safle hynny ar Benrhyn Llŷn.<sup>11</sup> Mae'r dirywiad hwn yn eu gwasgariad yn y DU wedi'i

<sup>8</sup> Vanbergen, AJ a'r Fenter Pryfed Peillio, 2013, Threats to an ecosystem service: pressures on pollinators, *Frontiers in Ecology and the Environment* doi:10.1890/120126

<sup>9</sup> Amcangyfrif yr Uned Wenyn Genedlaethol o wybodaeth a ddarparwyd gan Arolygwyr Gwenyn.

<sup>10</sup> Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 1997, Action for Wildlife: biodiversity action plans: the challenge for Wales, CCGC.

<sup>11</sup> Evan, RE a Potts, S, 2013, Iconic Bees: Wales. Large Mason Bee, Cyfeillion y Ddaear

gofnodi mewn sawl atlas dros dro a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cofnodion Biolegol<sup>12</sup>.

### **Glöynnod byw<sup>13</sup>**

O'r 43 o rywogaethau o löynnod byw a welir yng Nghymru, mae 10 yn prinhaus'n ddifrifol ac 17 yn prinhaus. Er bod 11 o rywogaethau'n sefydlog neu'n cynyddu, yn gyffredinol mae 63% o löynnod byw Cymru yn prinhaus.

### **Gwyfynod<sup>14</sup>**

Mae 337<sup>15</sup> o wyfynod macro (mawr) eang eu gwasgariad (a welir mewn mwy na 23 o sgwariau 10 cilometr) wedi'u cofnodi yng Nghymru. Mae 93 o'r gwyfynod macro eang eu gwasgariad a gofnodir yng Nghymru naill ai 'mewn perygl' neu'n 'fregus' o dan feini prawf yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) (yn seiliedig ar dueddiadau poblogaeth 10 mlynedd dros 35 mlynedd). Yn gyffredinol, mae 28% o'r gwyfynod sy'n eang eu gwasgariad yng Nghymru yn prinhaus'n ddifrifol.

### **Rhywogaethau eraill**

Mae yna nifer o glêr a gwenyn meirch ar restr Adran 42 o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC), gweler Adran 3, oherwydd bod poblogaethau'n prinhaus neu am fod ganddynt statws 'mewn perygl'<sup>16</sup>.

I bryfed peillio eraill megis pryfed hofran, er bod dirywiadau wedi'u dangos gan ddefnyddio data o gynlluniau cofnodi<sup>17</sup>, nid oes prin ddim data penodol i Gymru a allai sefydlu statws a thueddiadau o ran poblogaethau rhywogaethau. Er bod astudiaethau wedi'u cynnal o rywogaethau unigol, mae'n anodd asesu'r tueddiadau yng Nghymru oherwydd meintiau sampl bach. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm dros gredu y byddai'r tueddiadau dirywio a welir ledled y DU yn wahanol yng Nghymru.

---

<sup>12</sup> <http://www.brc.ac.uk/>

<sup>13</sup> Data'n deillio o Fox, R., Brereton, T.M., Asher, J., Botham, M.S., Middlebrook, I., Roy, D.B. a Warren, M.S. 2011. *The State of the UK's Butterflies 2011*. Butterfly Conservation and the Centre for Ecology & Hydrology, Wareham, Dorset.

<sup>14</sup> Data'n deillio o Fox, R., Conrad, K.F., Parsons, M.S., Warren, M.S. a Woiod, I.P. 2006. *The State of Britain's Larger Moths*. Butterfly Conservation and Rothamstead Research, Wareham, Dorset.

<sup>15</sup> Y Cynllun Cenedlaethol Cofnodi Gwyfynod.

<sup>16</sup> I weld rhestr Adran 42, ewch i: <http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Section-42-Lists>

<sup>17</sup> Y Cynllun Cofnodi Pryfed Hofran <http://www.hoverfly.org.uk/>

## **Y prif feysydd pryder**

Mae ymchwil<sup>18</sup> wedi canfod sawl maes pryder ar gyfer pryfed peillio cadw a gwyllt gan gynnwys:

- Dwysáu defnydd o dir, colli neu ddarnio cynefinoedd
- Clefydau
- Agrogemegau
- Y newid yn yr hinsawdd

Mae'r meysydd hyn wedi'u hystyried o safbwynt eu heffaith yng Nghymru a'r cyfleoedd i fynd i'r afael â nhw. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am i ba raddau y mae cydberthynas rhyngddynt. Maent yn destun gwaith ymchwil fel y Fenter Pryfed Peillio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae diffyg cynefin addas, er enghraifft, yn debygol o olygu bod poblogaethau pryfed peillio'n fwy bregus o ran pwysau gan glefydau a newid yn yr hinsawdd.

### **Dwysáu defnydd o dir, colli neu ddarnio cynefinoedd**

Dyma un o'r rhesymau allweddol dros ddirywiad pryfed peillio. Mae bron 80% o ddefnydd tir yng Nghymru yn amaethyddol. Er bod y rhan fwyaf o'r tir hwnnw, 61%, yn dir pori parhaol, wrth i systemau ffermio ddwysáu, mae llawer o laswelltiroedd lled-naturiol wedi'u trawsnewid i borfeydd dros dro a all fod ag ychydig iawn o rywogaethau blodeuol arnynt i gynnal pryfed peillio.

Collwyd llawer iawn o gynefin glaswelltir iseldir cyfoethog ei rywogaethau (neu led-naturiol) ledled Cymru yn ystod yr 20fed Ganrif. Amcangyfrifir i 91% o laswelltir iseldir lled-naturiol gael ei gollu dros gyfnod o 50 i 60 mlynedd rhwng y 1930au a'r 1990au. Amcangyfrifwyd y collwyd cymaint â 97% o laswelltir sych yr iseldir sydd heb ei wella<sup>19</sup>.

Mae gweunydd a gwlypdiroedd yn bwysig iawn i bryfed peillio gan eu bod yn darparu digonedd o flodau tua diwedd y tymor. Gall cynhyrchwyr mêl ddibynnu ar rug ar adegau fel hyn, ac mae mêl grug yn gynnyrch hynod boblogaidd o hyd. Mae gweunydd wedi bod yn prinhaus oherwydd gwelliannau amaethyddol ers canol y ddeunawfed ganrif, ac mae rhai o ffigurau Cymru yn dangos, er enghraifft, y collwyd 97% o weunydd gwlyb a 50% o weunydd sych rhwng 1920/2 a 1987/8 ar Benrhyn Llŷn<sup>20</sup>.

---

<sup>18</sup> Er enghraifft: Winfree, R., Bartomeus, I., a Cariveau, D.P. (2011) Native Pollinators in Anthropogenic Habitats. *Annu.Rev. Ecol. Evol. Syst.* 42, 1-22., ond llawer o rai eraill gweler: [https://wiki.ceh.ac.uk/display/ukipi/Further+Reading?atl\\_token=aa45a6558b5570ba3ed88236d6583e1543fcfd92](https://wiki.ceh.ac.uk/display/ukipi/Further+Reading?atl_token=aa45a6558b5570ba3ed88236d6583e1543fcfd92)

<sup>19</sup> Stevens, D. P., Smith, S. L. N., Blackstock, T. H., Bosanquet, S. D. S., Stevens, J. P. 2010. *Grasslands of Wales. A survey of lowland species-rich grasslands, 1987–2004.* Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd. Stevens et al. (2010).

<sup>20</sup> Stevens, J.P. (1992). *Vegetation change in Llyn between 1920/2 and 1987/8.* CCW Science Report 36. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bangor.

Ar hyn o bryd, dim ond 12% o dir amaethyddol sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau â'r megis olew had rēp a chodlysiau, sydd ag angen pryfed peillio arnynt ac sy'n eu cynnal<sup>21</sup>. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth ar bryfed peillio i fodloni anghenion diogelwch bwyd y dyfodol yn debygol o gynyddu, sy'n dangos pwysigrwydd cadw peilliad fel gwasanaeth.

Mae gwella amodau i bryfed peillio ar bob tir amaethyddol, drwy ddarparu mwy o rywogaethau planhigion blodeuol a chynefinoedd mwy â gwell cysylltiadau rhyngddynt, yn faes gweithredu allweddol. Gall dulliau o ddefnyddio tir ffermio megis coetiroedd a pherllannau, gwrychoedd/perthi ac ymylon caeau, fod o gymorth. Mae 226,134 hectar (13%) o'r tir amaethyddol ar hyn o bryd o dan Glastir, cynllun amaeth-amgylcheddol Cymru, sy'n cynnwys llawer o opsiynau sy'n llesol i bryfed peillio, a cheir cyfleoedd i ymestyn y ddarpariaeth hon. Mae angen dyfeisio opsiynau eraill i dir nad yw'n gymwys ar gyfer Glastir, ac mae angen ystyried rheoli pryfed peillio mewn tirweddau gwarchoddedig, ardaloedd dynodedig a chefn gwlad yn fwy cyffredinol.

Mae 13% o'r tir yn goetiroedd (gan gynnwys coetiroedd fferm) a choedwigoedd a allai ddarparu gwell cyfleoedd i bryfed peillio.

Mae 10% o arwynebedd tir Cymru yn drefol, ac mae hyn yn cynnwys llawer o selio tir (er enghraifft, concrit ar erddi a manau parcio). Ceir llawer o gyfleoedd i ddarparu gwell amodau i bryfed peillio mewn ardaloedd trefol a datblygedig ac ar hyd ochrau ffyrdd, a hefyd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli.

## Clefydau

Mae plâu a phathogenau di-asgwrn-cefn (feirysau, bacteria a ffyngau microsboridaidd) yn lladd llawer o bryfed peillio cadw, ac maent wedi'u hastudio orau mewn gwenyn mêl. Y gwiddon *Varroa* yw fector llawer o feirysau sy'n gyfrifol am ddirywiad nythfeydd gwenyn mêl. Mae *Varroa* yn amharu ar imiwedd y cynhaliwr ac yn cynyddu llwyth y feirws. Fodd bynnag, yn aml mae gwenyn wedi'u heintio â llawer o wahanol blâu a phathogenau, ac mae'r rhain yn amrywio'n ddaearyddol ac yn dymhorol<sup>22</sup>.

Mae colledion gwenyn mêl dros y gaeaf yn ddigwyddiad tymhorol naturiol nad oes modd ei osgoi, ac mae'n amrywio yn ôl amodau tywydd/porthiant y tymor blaenorol ac yn ystod y gaeaf. Gall hwsmonaeth dda gan geidwaid gwenyn leihau colledion.

Yn hanesyddol, mae ceidwaid gwenyn wedi disgwyl colli tua 10% o'u nythfeydd yn ystod y gaeaf ond mae'r cynnydd yn y niferoedd yn yr haf yn fwy na gwneud yn iawn am hynny. Achosodd lledaeniad *Varroa* o 1994 ymlaen yng Nghymru lawer mwy o

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, 2012, *Ffeithiau a Ffigurau Ffermio*, <http://cymru.gov.uk/topics/statistics/publications/farmfacts12/?lang=cy>

<sup>22</sup> Vanbergen et al. 2012. Insect Pollinators: Linking Research and Policy. Workshop Report of UK Science and Innovation Network (Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau) Ar gael i'w lwytho i lawr o: <http://www.insectpollinatorsinitiative.net>

golledion. Wrth i geidwaid gwenyn ddysgu i reoli *Varroa*, cafwyd llai o golledion yn sgil *Varroa* yn ystod y gaeaf. Er hynny, mae colledion y gaeaf yng Nghymru ers 2011 yn awgrymu ffigurau ychydig yn uwch na'r disgwyl, sef 14%-22% yn 2011 a 15%-19% yn 2012<sup>23</sup>.

Mae hi hefyd yn dod yn glir y gall llawer o blâu a phathogenau ledaenu o fewn a rhwng cacwn gwyllt a chacwn cadw a phryfed peillio eraill o bosibl. Gall colli rhywogaethau anarbenigol, megis llawer o rywogaethau o gacwn, o ganlyniad i glefyd gynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhwydweithiau peillio'n chwalu. Câi hynny effeithiau negyddol ar yr ecosystem ehangach<sup>24</sup>.

Mae angen mwy o waith ymchwil i'r meysydd hyn, a chymorth i fonitro'r sefyllfa o ran iechyd pryfed peillio. Cynllun Gwenyn Iach Defra a Llywodraeth Cymru yw un o'r prif sbardunwyr ar gyfer y maes gwaith hwn.

### **Agrogemegau**

Mae defnyddio gwrteithiau a phlaladdwyr wedi bod yn rhan o'r symudiad tuag at ffermio mwy dwys yng Nghymru. Er mai polisi Llywodraeth Cymru yw lleihau cymaint ag y bo modd ar yr effaith y mae defnyddio plaladdwyr yn ei chael ar bobl, bywyd gwyllt, planhigion a'r amgylchedd – gan fynd ati ar yr un pryd i sicrhau bod plâu, clefydau a chwyn yn cael eu rheoli'n effeithiol – mae defnyddio plaladdwyr yng Nghymru yn gyfrifol am lai na 2% o ddefnydd y DU.

Wrth benderfynu ar y camau y mae angen eu cymryd i gael y cydbwysedd anodd hwn, yn gyntaf oll bydd rhaid i ni gasglu tystiolaeth wyddonol dda i'n galluogi i wneud yr asesiad gorau posibl o'r risg sy'n gysylltiedig â'r camau hynny. Defnyddir gwaith ymchwil fel sail ar gyfer llunio strategaethau lliniaru a fydd yn sicrhau bod y gwaith o beillio cnydau amaethyddol a garddwriaethol yn cael ei warchod, a bod bioamrywiaeth mewn ecosystemau naturiol yn cael ei gynnal.

Mae gwaith ymchwil diweddar yn awgrymu y gallai tri phlaladdwr neonicotinoid (clothianidin, imidacloprid a thiamethocsam) niweidio iechyd gwenyn. O ganlyniad i bryderon o'r fath, cyfyngodd y Comisiwn Ewropeaidd ar ddefnyddio'r tri neonicotinoid i drin hadau, eu defnyddio ar dir (gronigion) ac i drin dail ar blanhigion a grawn sy'n denu gwenyn. Ceir rhai eithriadau o ran tai gwydr a threialon awyr agored. Cyn gynted ag y bydd gwybodaeth newydd ar gael, mae'r Comisiwn yn bwriadu adolygu amodau cymeradwyo'r tri neonicotinoid i ystyried datblygiadau gwyddonol a thechnegol perthnasol.

Mae strategaethau eraill i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru yn cynnwys Rheoli Plâu yn Integredig, a gynigir yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Plaladdwyr, a lleihau'r defnydd o blaladdwyr mewn ardaloedd trefol mewn ffordd wedi'i thargedu.

---

<sup>23</sup> Data o Beebase, yr Uned Wenyn Genedlaethol.

<sup>24</sup> Vanbergen et al. 2012. fel yr uchod



## **Y newid yn yr hinsawdd**

Mae yna ansicrwydd ynglŷn â'r graddau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bryfed peillio yn y DU. Mae hafau cynnes a sych yn debygol o gael effaith gadarnhaol, ac mae hafau gwlypach yn debygol o fod yn anffafriol. Efallai y gall pryfed peillio sydd â dosbarthiad hinsoddol eang, megis gwenyn mêl, addasu. Fodd bynnag, nid yw dyddiadau blodeuo planhigion bwyd a dyddiad ymddangosiad pryfed peillio bob amser yn cyd-daro os ydynt yn ymateb i sbardunau amgylcheddol gwahanol<sup>25</sup>. Mae'r bwllch rhwng cyrens duon a'u pryfed peillio wedi cynyddu 28 diwrnod ers y 1970au. Gallai hyn olygu cyfnodau o newyn i bryfed peillio, gan effeithio'n arbennig ar bryfed peillio gwyllt sydd heb lawer o storffeydd bwyd. Mae cacwn yn arbennig o sensitif gan eu bod yn gwbl ddibynol ar y dirwedd, heb y posibilrwydd o gael yr ategion dietegol artiffisial sydd ar gael i wenyn mêl cadw.

## **Materion eraill**

Mae Rhywogaethau Goresgynol Anfrodorol (INNS) yn fater arall a godwyd. Mae'r rhain yn rhywogaethau anfrodorol sy'n gallu mynd yn gryfach na'r lleill mewn amgylchedd lle maent yn effeithio ar rywogaethau brodorol, yn trawsnewid ecosystemau ac yn achosi niwed amgylcheddol. Er bod rhywogaethau goresgynol fel Jac y Neidiwr yn gallu darparu porthiant gwerthfawr tua diwedd y tymor, fel Rhywogaeth Goresgynol Anfrodorol, mae'n bosibl y bydd angen difa'r planhigyn hwn. Felly, ni ellir dibynnu arno, a dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu cynefinoedd sy'n llawn blodau brodorol.

Mae diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch materion yn ymwneud â phryfed peillio hefyd yn destun pryder. Mae'n hollbwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ac ar draws sectorau busnes er mwyn gwella amodau ar gyfer pryfed peillio yng Nghymru.

## **Ymchwil a Mentrau**

Mae llawer o waith ymchwil yn cael ei gynnal yn fyd-eang, yn Ewrop ac yn y DU, i gael rhagor o wybodaeth am anghenion pryfed peillio, y pethau sy'n effeithio arnynt, a dulliau o'u rheoli.

Nod prosiect STEP (Statws a Thueddiadau Pryfed Peillio Ewropeaidd), a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd, yw asesu statws a thueddiadau presennol pryfed peillio yn Ewrop, mesur pwysigrwydd cymharol gwahanol sbardunau ac effeithiau newid, nodi polisiâu a strategaethau lliniaru perthnasol a dosbarthu'r wybodaeth i amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Yn y DU, mae'r Fenter Pryfed Peillio yn darparu cronfa o hyd at £10 miliwn i gefnogi sawl prosiect i wella dealltwriaeth ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwaith ymchwil pellach a'r angen am dystiolaeth.

---

<sup>25</sup> Memmott J. *et al.*, 2007, *Ecology Letters* 10, 710-717

Mae llawer o waith yn cael ei wneud i gefnogi ac i ddarparu ar gyfer pryfed peillio. Ceir mentrau ar hyd a lled y DU, gan gynnwys Pecyn yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn ar gyfer Awdurdodau Lleol, a 'Plan Bee' gan The Co-operative.

Dyma rai enghreifftiau yng Nghymru:

- Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ein Partner Gwyddoniaeth Strategol, sawl prosiect, gan gynnwys prosiectau cadw gwenyn a garddio cymunedol. Ceir prosiect hefyd o'r enw Cod Bar Cymru, sef prosiect cod bar DNA planhigion, a drwy weithio gyda Phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, gallai'r prosiect hwn helpu i weld pa blanhigion y mae gwenyn wedi ymweld â nhw a pham mae niferoedd pryfed peillio'n disgyn.
- Bu prosiect Urban Pollinators, o dan arweiniad Prifysgol Bryste, fel rhan o'r Fenter Pryfed Peillio, yn ymchwilio i statws presennol pryfed peillio mewn ardaloedd trefol yn y DU drwy samplu cymunedau o bryfed peillio planhigion ar yr un pryd mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (gan gynnwys Caerdydd yn 2011). Yna, roedd y prosiect yn asesu a all ychwanegu adnoddau paill a neithdar ar raddfa fawr, drwy gyflwyno dolydd llawn blodau, fod yn llesol i boblogaethau pryfed peillio mewn trefi.
- Mae gan nifer o Awdurdodau Lleol ar draws Cymru brosiectau sy'n fanteisiol i bryfed peillio. Mae Swyddog Bioamrywiaeth mewn Ysgolion Cyngor Dinas Casnewydd yn helpu ysgolion i ddatblygu eu tiroedd i fod yn adnodd addysgol ac yn hafan i fywyd gwyllt. Mae pum deg pump o ysgolion yn rhan o'r rhaglen Bioamrywiaeth mewn Ysgolion yng Nghasnewydd, sy'n cael ei hariannu'n rhannol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ysgolion eu hunain. Mae gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan gynlluniau ar gyfer creu ardaloedd bywyd gwyllt, plannu coed, creu cynefinoedd bywyd gwyllt, creu strwythurau helyg a datblygu cynefinoedd tiroedd gwlyb.
- Yn Sir Ddinbych, bu'r Awdurdod Priffyrdd, ynghyd â Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, yn cydweithio i ddatblygu gwell systemau rheoli ar gyfer lleiniau'r sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, er mwyn cynnal a gwella eu gwerth ar gyfer bioamrywiaeth heb gyfaddawdu diogelwch ar y ffyrdd. Fodd bynnag, mewn nifer o ardaloedd gall gadael lleiniau heb eu torri er budd bywyd gwyllt arwain at wrthwynebiad yn lleol, ac mae angen gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â'r materion hyn.
- Mae Cadwch Gymru'n Daclus wrthi'n cynnal prosiect 'Y Goedwig Hir', sef prosiect tirwedd, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nod y fenter hon yw hybu cymorth cymunedol i wneud gwaith ymchwil, cofnodi ac adfer y rhwydwaith o wrychoedd yn y Parc Cenedlaethol, a fydd yn dwyn budd i bryfed peillio. Mae'r

prosiect wedi cael £120,000 o nawdd gan Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a reolir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Lanswyd y fenter yn ystod tymor yr hydref 2012 a disgwyliar y bydd yn parhau am bron i ddwy flynedd.

- Mae Buglife yn ymgymryd â phrosiect 3 blynedd i weithio ar bum safle tir llwyd yn Abertawe ac yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r Rhwydwaith Amgylchedd Ailgylchu Gwastraff wedi rhoi nawdd i Buglife i weithio gyda chynghorau lleol ac arbenigwyr a phobl leol sy'n danbaid dros fywyd gwyllt. Bydd cynefinoedd sy'n llawn blodau gwyllt yn cael eu creu yn ogystal â chloddiau gwenyn, a bydd arwyneb tir llwm yn cael ei grafu. Yn sgil hyn bydd 48 hectar o gynefin tir llwyd yn cael ei adfer ar gyfer yr infertebrata sydd o dan fygythiad, gan gynnwys y gardwenynen feinlais a'r gwibiwr llwyd.
- Mae Cymdeithas Gwenynwyr Sir Benfro wrthi'n datblygu 'Canolfan Cadw Gwenyn Sir Benfro' yn Scolton Manor ger Hwlfordd. Mae'r prosiect wedi cael ei ariannu gan Amgylchedd Cymru a Chronfa Cefn Gwlad y Tywysog hyd at 2014. Mae'r prosiect yn cynnwys sefydlu gwenynfa i ddarparu cyfleusterau hyfforddi ar gyfer pobl sy'n cadw gwenyn, man diogel i'r cyhoedd allu gweld, a chyfleuster prosesu mêl.
- Yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno, rydym yn gweithio gyda Vinci Facilities Management i gael dau gwch gwenyn a nythfeydd o wenyn mêl. Mae Cymdeithasau Gwenynwyr lleol wedi bod yn rhoi cyngor ynghylch ble i roi'r cychod ac yn mentora staff Vinci a fydd yn rheoli'r cychod gwenyn. Bydd y dirwedd ar gyfer bioamrywiaeth yn cael ei gwella ar y ddau safle hefyd.
- Mae Canolfan Genedlaethol Cadw Gwenyn Cymru (a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig) yn helpu i ddatblygu diwydiant egniïol, iach ac amgylcheddol gyfrifol yng Nghymru.

## ***Llywodraethu a seilwaith***

Mae llawer o sefydliadau yng Nghymru yn poeni am reoli, gwarchod a monitro pryfed peillio yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cyfrannu fel rhanddeiliaid at ddatblygu'r Cynllun hwn.

### **Pryfed peillio cadw**

Mae'r Uned Wenyn Genedlaethol (NBU)<sup>26</sup> yn darparu'r Rhaglen Iechyd Gwenyn ar ran Llywodraeth Cymru a Defra o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Ers 2009, mae gwaith yr NBU wedi'i bennu'n bennaf gan y Cynllun Gwenyn Iach<sup>27</sup>.

---

<sup>26</sup> Gwefan yr NBU yw Beebase: <https://secure.fera.defra.gov.uk/beebase/index.cfm>

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yn elusen gofrestrdig sy'n hyrwyddo buddiannau ceidwaid gwenyn Cymru, yn ogystal â hwsmonaeth ac arferion da ar gyfer cadw gwenyn, drwy addysg, gwybodaeth a chyngor.

### **Pryfed peillio gwyllt**

Cyfoeth Naturiol Cymru yw corff cyngori statudol Llywodraeth Cymru ym maes cadwraeth natur. Eu diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys bioamrywiaeth, yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella mewn modd cynaliadwy.

Mae cyrff anllywodraethol sy'n helpu i warchod a rheoli pryfed peillio yn cynnwys Buglife, yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, Gwarchod Glöynnod Byw Cymru, Flowerscapes, Cyfeillion y Ddaear Cymru, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched, Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru, Plantlife ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

Mae dyletswydd ar y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i roi sylw priodol i fioamrywiaeth o dan Ddeddf NERC (gweler Adran 3) wrth gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys mewn gwasanaethau cynllunio, priffyrdd ac amgylcheddol. Mewn nifer o achosion, mae'r adrannau hyn, ac adrannau eraill Awdurdodau Lleol, yn cynnig cyfleoedd i wella'r amodau i bryfed peillio.

Fodd bynnag, nid oes canolbwynt ar hyn o bryd yng Nghymru ar gyfer gwaith a gwybodaeth am bryfed peillio, er bod llawer o'n rhanddeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd tuag at amcanion cyffredin. Mae dod â phawb sydd â diddordeb mewn pryfed peillio, eu rheoli a'u gwarchod at ei gilydd yn un o feysydd gweithredu pwysig y cynllun hwn.

---

<sup>27</sup> Gwenyn Iach: Amddiffyn a gwella iechyd gwenyn mêl yng Nghymru a Lloegr, 2009, Defra a Llywodraeth Cymru. Ar gael i'w lwytho i lawr o <https://secure.fera.defra.gov.uk/beebase/index.cfm?sectionid=41>

### **3 Ein Gweledigaeth ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru – Ei rhoi mewn cyd-destun**

Dyma ein gweledigaeth:

**Mae Cymru yn cefnogi poblogaethau iach o bryfed peillio gwyllt a chadw er lles pobl, economi ac amgylchedd Cymru.**

Bydd y weledigaeth, neu'r canlyniad, yn helpu i gyflawni nifer o bolisiau a chanlyniadau eraill Llywodraeth Cymru, ac yn cyfrannu at sicrhau gwell amodau i bryfed peillio yn y DU ac yn fyd-eang.

Mae'r cynllun hwn yn defnyddio dulliau sy'n rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig, gan roi sylw i anghenion pryfed peillio a'r pwysau sydd arnynt drwy gryfhau camau gweithredu drwy gyfrwng ein polisiau presennol, a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl wrth ddatblygu polisiau newydd.

Mae'r cynllun gweithredu hwn hefyd yn darparu mandad i gymryd camau a fydd o fudd uniongyrchol i bryfed peillio ac felly'n cyfrannu at ein hamcanion cyffredinol.

Er enghraifft, mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys camau gweithredu allweddol ar fyw o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd a diogelu ecosystemau iach yng nghyswllt:

- Creu llefydd cynaliadwy drwy ddarparu seilwaith ar gyfer y 21ain Ganrif (ym maes gwastraff, dŵr, rheoli perygl llifogydd, effeithlonrwydd ynni a chyflenwad ynni) sy'n ein symud tuag at economi carbon isel ac yn sicrhau ein bod yn gallu gwrthsefyll pwysau amgylcheddol yn y dyfodol
- Rheoli ecosystemau Cymru (ein "seilwaith gwyrdd") i sicrhau canlyniad hirdymor cadarnhaol ar gyfer dŵr, aer, pridd, tirwedd a bioamrywiaeth
- Dod â'n hamcanion amgylcheddol a'r gwaith o reoli ein seilwaith gwyrdd ynghyd gyda'n hamcanion cymdeithasol ac economaidd er mwyn gwella lles yn gyffredinol a helpu pobl, cymunedau, y sector cyhoeddus a busnesau i wneud hynny hefyd.

Byddai cynhyrchu canllawiau arfer gorau i reoli tir ar gyfer pryfed peillio, er enghraifft, yn cyfrannu at bob un o'r tri cham gweithredu allweddol hyn.

#### ***Rheoli Adnoddau Naturiol***

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn rhan annatod o'r ffordd y mae'n rheoli ei holl weithgareddau mewn perthynas ag adnoddau naturiol. Diffinnir Dull Rheoli'r Ecosystem fel strategaeth i reoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn ffordd integredig sy'n hyrwyddo cydbwysedd teg rhwng cadwraeth natur a defnydd cynaliadwy (Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol). Rydym yn datblygu'r gwaith hwn drwy'r Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, gan gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddangos beth y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem, gan ddeddfu ar gyfer dull mwy integredig

o reoli adnoddau naturiol drwy Fil yr Amgylchedd ac ymwreiddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn ein cynlluniau a'n gweithredoedd.

I ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ymhellach, defnyddir fframwaith Cyfoeth Naturiol Cymru<sup>28</sup> er mwyn llunio dull gweithredu sy'n seiliedig ar yr ecosystem, ac sy'n fwy integredig, i reoli gwasanaethau peillio.

## **Bioamrywiaeth**

Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru yn deillio o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r targedau Aichi cysylltiedig<sup>29</sup>, ac ymateb yr UE i hyn yn '*Our life insurance, our natural capital: an EU Biodiversity Strategy to 2020.*' Mae Cymru yn cefnogi'r weledigaeth a'r targed yn y strategaeth hon a bydd y cynllun ar gyfer pryfed peillio'n cyfrannu at sut y bydd Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol i adnoddau naturiol ac yn gweithio tuag at gyflawni targedau'r EUBS.

**Gweledigaeth 2050 EUBS:** Erbyn 2050, bydd bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd a'r gwasanaethau ecosystem y mae'n eu darparu — ei gyfalaf naturiol — yn cael eu diogelu, eu gwerthfawrogi a'u hadfer oherwydd gwerth cynhenid bioamrywiaeth, cyfraniad y gwasanaethau hynny at les pobl a ffyniant economaidd, ac er mwyn osgoi'r newidiadau catastroffig a ddaw o golli bioamrywiaeth.

**Prif darged 2020 EUBS:** Atal colli bioamrywiaeth a dirywiad gwasanaethau ecosystem yn yr UE erbyn 2020, a'u hadfer cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, a chynyddu cyfraniad yr UE at atal colli bioamrywiaeth y byd.

Dyma chwe tharged cyffredinol Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE:

- Targed 1: Rhoi'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd ar waith yn llawn
- Targed 2: Cynnal ac adfer ecosystemau a'u gwasanaethau
- Targed 3: Cynyddu cyfraniad amaethyddiaeth a choedwigaeth at fioamrywiaeth
- Targed 4: Sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy
- Targed 5: Mynd i'r afael â Rhywogaethau Goresgynnol Estron
- Targed 6: Cynyddu camau i fynd i'r afael ag argyfwng bioamrywiaeth y byd.

Adlewyrchir y targedau hyn yn y strategaeth ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, a bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yn bolisi allweddol i helpu i gyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau hyn.

<sup>28</sup> Defnyddio Dull Rheoli'r Ecosystem: Fframwaith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013.

<sup>29</sup> Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Strategic Plan for Biodiversity 2011 – 2020 and the Aichi Biodiversity Targets, Living in Harmony with Nature <http://www.cbd.int/decision/cop/?id=12268>

## **Pryfed Peillio, bioamrywiaeth a Dull Rheoli'r Ecosystem**

Mae dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn ffordd o edrych ar ein hamgylchedd naturiol a'r gwasanaethau y mae'n ei ddarparu, er enghraifft bwyd, ffibr a dŵr glân, rheoli perygl llifogydd, dal carbon a manau gwyrdd ar gyfer hamdden a thwristiaeth. Mae'n ymwneud â phenderfynu sut y gellir darparu'r manteision i bobl (swyddi, bywoliaeth, iechyd) dros y tymor hir a sicrhau bod yr ecosystemau y maent yn dibynnu arnynt yn gweithredu'n iach. Hanfod y dull yw edrych ar y darlun yn ei gyfanrwydd – yr holl brosesau naturiol amrywiol – a'r gydberthynas rhyngddynt, yn hytrach nag ystyried un neu ddwy agwedd ar y tro.

Yn y pen draw, bioamrywiaeth sy'n tanategu'r ffordd y mae pob ecosystem yn gweithio, ac felly'r ffordd y caiff pob gwasanaeth ecosystem ei gyflenwi.<sup>30</sup> Mae pryfed peillio a'r broses beillio'n enghraifft ragorol o hyn, gweler Ffigur 1 uchod – rydym yn dibynnu ar weithredoedd pryfed peillio i sicrhau cyflenwad parhaus o blanhigion, coed a blodau. Yn ei dro, mae hyn yn darparu bwyd i ni ac anifeiliaid eraill yn y gadwyn fwyd ac yn sicrhau amgylchedd naturiol iach, gwydn ac amrywiol.

Yn gyffredinol, mae'r hyn sy'n bolisi da ar gyfer pryfed peillio yn dda ar gyfer bioamrywiaeth, ac felly yn dda ar gyfer iechyd yr ecosystem yn ehangach.

## **Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig**

Mae Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried gwarchod bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n cyd-fynd ag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

Yng Nghymru, mae Adran 42 o'r Ddeddf yn nodi rhestr o rywogaethau blaenoriaeth a ddylai fod yn ganllaw i benderfynwyr fel cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a rhanbarthol, wrth gyflawni eu dyletswydd am fioamrywiaeth. Mae'r rhestr hon yn cynnwys llawer o bryfed peillio, gan gynnwys gwyfynod, glöynnod byw, gwenyn a llawer o rywogaethau eraill sy'n dibynnu ar bryfed peillio, yn enwedig planhigion, ond hefyd mamaliaid fel y pathew a'r wiwer goch sy'n dibynnu ar ffrwythau ac aeron mewn rhai tymhorau<sup>31</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i sicrhau bod y ddyletswydd bioamrywiaeth yn cael ei gweithredu a'i chryfhau, ac maent yn edrych ar nifer o ddewisiadau i wneud hyn.

<sup>30</sup> Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol (NEA) y DU, fel cynt

<sup>31</sup> I weld rhestri Adran 42, ewch i: <http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Section-42-Lists>



## **Strategaethau eraill Llywodraeth Cymru**

Y Cynllun Gwenyn Iach<sup>32</sup> yw'r strategaeth allweddol i ddiogelu gwenyn mêl, a bydd cefnogaeth i'r cynllun hwn yn parhau.

Mae llawer o Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu eraill ar waith ledled Llywodraeth Cymru a all helpu i wireddu ein gweledigaeth, a bydd y camau gweithredu yn y cynllun hwn yn cyfrannu atynt.

Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu er lles bioamrywiaeth:

Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd  
Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn – Strategaeth Newydd ar gyfer Ffermio  
Strategaeth Drafnidiaeth Cymru  
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Gefnffyrdd  
Polisi Cynllunio Cymru  
Cyfarwyddyd Polisi Cynllunio: Nodyn Cyngor Technegol 5, Cynllunio a Chadwraeth Natur a Nodyn Cyngor Technegol 22, Adeiladau Cynaliadwy Coetiroedd i Gymru – y strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed

Mae'r polisiâu sydd wrthi'n cael eu datblygu ac a fydd yn ganolog i sicrhau gwell amodau i bryfed peillio'n cynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2014 – 2021, a diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Byddwn yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer pryfed peillio ym mhob un o'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu hyn, ac eraill, o fewn Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol.

---

<sup>32</sup> Gwenyn Iach: Amddiffyn a gwella iechyd gwenyn mêl yng Nghymru a Lloegr, 2009, Defra a Llywodraeth Cymru. Ar gael i'w lwytho i lawr o <https://secure.fera.defra.gov.uk/beebase/index.cfm?sectionid=41>

## 4 Agenda ar gyfer Gweithredu – Beth yw ein nod ar gyfer y dyfodol?

I'n galluogi ni i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer pryfed peillio yng Nghymru byddwn yn cydweithio i atal y dirywiad ym mhoblogaethau pryfed peillio, ac yn ceisio gwrthdroi'r dirywiad hwnnw.

Mae dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru yn dangos mai'r ffordd orau o sicrhau hyn fyddai drwy ddarparu cynefinoedd gwell a mwy cysylltiedig, sy'n llawn blodau, a fydd yn cynnal pryfed peillio gwyllt a chadw ar dir ffermio, mewn ardaloedd gwarchoddedig ac yng nghefn gwlad yn ehangach, ac mewn ardaloedd trefol a datblygedig.

Dylid ategu hyn drwy sicrhau bod poblogaethau iach o bryfed peillio, yn gyntaf drwy barhau i gefnogi'r Cynllun Gwenyn Iach.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf, rhaid i'r camau gweithredu ar gyfer pryfed peillio gael eu cymeradwyo a'u cefnogi gan bawb yng Nghymru, gan uno polisïau a threfn llywodraethu, a chreu mwy o ymwybyddiaeth o bryfed peillio a'u pwysigrwydd.

Mae'r canlyniadau a'r meysydd gweithredu canlynol wedi'u cytuno a'u hategu ar ôl ymgynghoriad. Maent yn rhoi fframwaith i weithio tuag at ein gweledigaeth, ond cânt eu hadolygu a'u diweddarau pan fydd gwybodaeth newydd yn dod i law.

### ***Canlyniad 1: Mae gan Gymru bolisi a threfniadau llywodraethu cydgysylltiedig a sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer gweithredu er lles pryfed peillio***

Canlyniadau o ran polisi a llywodraethu:

- Caiff pryfed peillio eu cydnabod a'u rheoli mewn polisïau a rhaglenni yn Llywodraeth Cymru ac ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- Mae rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod bioamrywiaeth, gan gynnwys pryfed peillio, yn tanategu ecosystemau iach gweithredol, ac mae'n parhau i ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem.
- Bydd ymateb i'r adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur, a fydd yn arwain at strategaeth a gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru, yn nodi pryfed peillio fel blaenoriaeth.
- Caiff y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio ei gydnabod a'i reoli, mae'n sbarduno rhaglenni gwaith, targedau a cherrig milltir, a chaiff ei fonitro a'i werthuso i sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben.

- Caiff rhanddeiliaid, gan gynnwys rhai o gymunedau busnes a chymunedau ffermio, eu cynnwys yn llawn yn y broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar waith.
- Caiff arfer gorau ei rannu ar draws sectorau.

**Maes Gweithredu 1.1: Cysylltu a chychwyn polisiâu a rhaglenni i gynhyrchu camau gweithredu buddiol sy'n dda i bryfed peillio ac iechyd yr ecosystem**

Canlyniadau tystiolaeth:

- Sicrhau gwell gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch statws a thueddiadau poblogaethau pryfed peillio yng Nghymru, a'r gydberthynas rhwng gwahanol bethau sy'n effeithio arnynt.
- Caiff dulliau lliniaru a rheoli eu hymchwilio a'u lledaenu.
- Caiff y Cynllun Gweithredu ei fonitro a'i werthuso i sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei ganlyniadau, a sefydlir dangosyddion priodol.
- Ymgysylltir â mentrau ymchwil a thystiolaeth y DU, i wella gwybodaeth i Gymru ac i gyfrannu at ein tystiolaeth sylfaenol.

**Maes Gweithredu 1.2: Creu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi gweithredoedd fydd o les i bryfed peillio i'r dyfodol**

***Canlyniad 2: Mae Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol a chysylltiedig sy'n llawn blodau i gynnal ein pryfed peillio***

- Caiff cynefinoedd buddiol llawn blodau eu hybu, eu creu a'u gwella lle bynnag y bo'n bosibl ledled Cymru, ar raddfa tirwedd, a hefyd ar raddfeydd llai.
- Caiff cyfleoedd i greu cynefinoedd a'u gwella ar gyfer pryfed peillio eu hybu a'u cefnogi ar dir fferm, mewn ardaloedd gwarchoddedig ac yng nghefn gwlad yn gyffredinol, ac mewn ardaloedd trefol a datblygedig.

**Maes Gweithredu 2.1: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir ffermio**

**Maes Gweithredu 2.2: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws ardaloedd gwarchoddedig a chefn gwlad yn gyffredinol**

**Maes Gweithredu 2.3: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig**

### ***Canlyniad 3: Mae gan Gymru boblogaethau iach o bryfed peillio***

- Caiff poblogaethau iach o bryfed peillio eu cynnal yng Nghymru er mwyn cynnal y gwasanaeth peillio y maent yn ei ddarparu ac am eu gwerth cynhenid.
- Mae canlyniadau'r Cynllun Gwenyn Iach wedi'u hategu a'u cefnogi gan waith y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio

#### **Maes Gweithredu 3.1: Cefnogi gweithredoedd y DU i hyrwyddo poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru**

### ***Canlyniad 4: Mae pobl Cymru yn fwy gwybodus ac ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio a'r gwaith o'u rheoli***

- Os bydd y cyhoedd yn ymwybodol o bwysigrwydd pryfed peillio ac yn deall eu cyfraniad at ein bywydau, bydd gennym Gymru fwy gwybodus ac ymagwedd gydweithredol at gefnogi a rheoli pryfed peillio.
- Mae pobl Cymru yn cydnabod gwerth pryfed peillio i'r economi ac i'r gymdeithas, yn ogystal ag i'r amgylchedd.

#### **Maes Gweithredu 4.1: Gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a chynnwys pobl Cymru yn y gwaith o'u rheoli**

## 5. Rhoi'r Cynllun ar waith

Rydym yn cydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan lawer o bobl ledled Cymru ar hyn o bryd, a bod yr angen am bartneriaeth a'r dull integredig sy'n ofynnol er mwyn darparu er lles bioamrywiaeth yn sail i'r holl feysydd gweithredu er lles pryfed peillio.

Felly, y cam cyntaf i roi'r Cynllun ar waith fydd sefydlu Tasglu Pryfed Peillio. Un o dasgau allweddol y grŵp hwn fydd llunio canllawiau arfer gorau i reolwyr tir a llunwyr polisïau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd cynllun cyfathrebu ac ymgyrch ymwybyddiaeth hefyd yn flaenoriaeth, yn yr un modd â dynodi ffynonellau ac anghenion adnoddau ar gyfer y dyfodol.

Mae toreth o wybodaeth ac arbenigedd wedi'u casglu o ganlyniad i gamau paratoi ac ymgynghori'r cynllun hwn; darperir rhagor o fanylion am y rhain yn yr Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad, a byddant ar gael i'r Tasglu Pryfed Peillio.

Caiff y mentrau a awgrymir isod eu datblygu gan y Tasglu a bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn mynd â nhw rhagddynt, ond byddant yn esblygu ac yn cael eu hategu wrth i flaenoriaethau ddatblygu yn y tymor hwy, wrth ymateb i'r adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur a strategaeth bioamrywiaeth Cymru.

Dyma'r gweithgareddau allweddol y pennwyd y dylid eu rhoi ar waith yn y tymor byr:

### **Maes Gweithredu 1.1: Cysylltu a chychwyn polisïau a rhaglenni i gynhyrchu camau gweithredu buddiol sy'n dda i bryfed peillio ac iechyd yr ecosystem**

- Sefydlu Tasglu Pryfed Peillio.
- Datblygu'r Cynllun Gweithredu drafft i greu rhaglen waith, gan ddefnyddio protocolau a gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.
- Dynodi unrhyw ffynonellau ac anghenion adnoddau ar gyfer y dyfodol i roi'r cynllun ar waith.
- Sicrhau bod y rhaglen o reoli adnoddau naturiol o fewn Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried pryfed peillio'n llawn fel gwasanaeth ecosystem allweddol.
- Sicrhau bod gan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf y potensial i fod yn fuddiol i bryfed peillio.
- Sicrhau bod pryfed peillio yn rhan annatod o'r ymateb i'r adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur ac unrhyw strategaeth ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru.
- Ystyried pryfed peillio yn ystod archwiliadau bioamrywiaeth mewnol NERC Llywodraeth Cymru, ac archwiliadau cyfatebol Awdurdodau Lleol, gan gynnwys sicrhau bod unrhyw feini prawf ariannu'n cynnwys bioamrywiaeth a phryfed peillio.

- Datblygu dangosydd i'r Rhaglen Lywodraethu a fydd yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud dros bryfed peillio ar draws sectorau.
- Cynhyrchu canllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt o ran pryfed peillio i reolwyr tir a llunwyr polisiau.

### **Maes Gweithredu 1.2: Creu sylfaen o dystiolaeth i gefnogi gweithredoedd fydd o les i bryfed peillio i'r dyfodol**

- Canfod bylchau tystiolaeth a blaenoriaethau ymchwil mewn perthynas â phryfed peillio yng Nghymru, gan gysylltu ag adolygiad Defra o dystiolaeth am bryfed peillio, a mentrau eraill yn y DU gan gynnwys y Fenter Pryfed Peillio.
- Sefydlu data sylfaenol a chynllun i fonitro dangosyddion priodol y cynllun, er enghraifft: poblogaethau pryfed peillio y cytunwyd arnynt, ardaloedd cynefinoedd â llawer o flodau ynddynt a dangosydd ar gyfer ymwybyddiaeth y cyhoedd.

### **Maes Gweithredu 2.1: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws tir ffermio**

- Ystyried sut y gall Glastir wella canlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth a phryfed peillio.
- Pan fo hynny'n bosibl, cynnwys canlyniadau bioamrywiaeth yn y broses o ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a datblygu'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.
- Cysylltu canlyniadau i bryfed peillio â gwaith Llywodraeth Cymru ar Daliadau am Wasanaethau Ecosystem.
- Codi ymwybyddiaeth o arfer gorau ymysg ffermwyr a rheolwyr tir drwy gyfrwng Cyswllt Ffermio, a lledaenu canllawiau arfer gorau.

### **Maes Gweithredu 2.2: Hyrwyddo, creu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig ar draws ardaloedd gwarchoddedig a chefn gwlad yn gyffredinol**

- Cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau camau gweithredu ar gyfer pryfed peillio mewn safleoedd dynodedig, ac o fewn yr ystad goed.
- Sicrhau bod canlyniadau a dangosyddion Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnwys bioamrywiaeth a phryfed peillio
- Adolygu rheoliadau a dynodiadau allweddol sy'n effeithio ar bryfed peillio i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y diben.

### **Maes Gweithredu 2.3: Hyrwyddo cyfleoedd a chreu a gwella cynefinoedd blodeuol amrywiol a chysylltiedig yn ein trefi, ein dinasoedd a'n hardaloedd datblygedig**

- Cychwyn Menter Pryfed Peillio Trefol i Gymru fel rhan o'r rhaglen waith Pryfed Peillio.
- Adolygu sut y mae Awdurdodau Lleol yn rheoli ymylon ffyrdd, parciau a mannau gwyrdd cyhoeddus.
- Hyrwyddo prosiectau a arweinir gan y gymuned i ddwyn budd i bryfed peillio a chymunedau lleol drwy gyfrwng ffrydiau ariannu blynyddol cyfredol megis *Trefi Taclus a Lleoedd Tawelach, Gwyrddach a Glanach*, a chyda partneriaid: Cadwch Gymru'n Daclus, awdurdodau lleol a chymunedau.
- Cynnwys arferion cyfeillgar at bryfed peillio o fewn contractau rheoli eiddo masnachol a thirwedd Llywodraeth Cymru.
- Cynnwys canllawiau am bryfed peillio yn yr adolygiad o'r polisi tai cynaliadwy.
- Cyfrannu at unrhyw adolygiad o bolisiâu a chanllawiau trafndiaeth Llywodraeth Cymru ac at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Gefnffyrdd gydag arweiniad ar gyfer rheoli pryfed peillio.

### **Maes Gweithredu 3.1: Cefnogi gweithredoedd y DU i hyrwyddo poblogaethau iach o bryfed peillio yng Nghymru**

- Parhau i gefnogi'r Cynllun Gwenyn Iach ac ariannu'r Uned Wenyn Genedlaethol
- Gweithio gyda'r Uned Wenyn Genedlaethol a Defra i ddatblygu cynllun wrth gefn cyfredol Cymru a Lloegr ar gyfer plâu egsotig a chlefydau gwenyn mêl.
- Cefnogi gwenynwyr a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cysylltiedig o dan y Cynllun Datblygu Gwledig.
- Defnyddio rhaglenni marchnata i roi cymorth i gynhyrchwyr mêl.
- Ymgysylltu â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Plaladdwyr

### **Maes Gweithredu 4.1: Gweithio i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio a chynnwys pobl Cymru yn y gwaith o'u rheoli**

- Cynhyrchu Cynllun Cyfathrebu fel rhan o'r rhaglen waith ar gyfer Pryfed Peillio.
- Sefydlu gwefan i ganoli gwybodaeth, a hybu arfer gorau ym maes pryfed peillio. Bydd gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn lletya hyn i ddechrau.



- Gwella gwybodaeth a chyfleusterau mewn ysgolion am bryfed peillio a'u pwysigrwydd, drwy ddefnyddio rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru i ddechrau.
- Hyrwyddo canllawiau arfer da gydag Awdurdodau Lleol, rheolwyr tir a'r cyhoedd a gweithio gyda chynlluniau gwobrwyo i hyrwyddo arferion er lles pryfed peillio, gan adeiladu ar waith blaenorol.
- Hyrwyddo arferion sydd o les i bryfed peillio ymhlith ffermwyr drwy Gwlad a rhaglen trosglwyddo gwybodaeth Cyswllt Ffermio.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn rhoi manylion y camau gweithredu hyn, a rhai eraill wrth iddynt ddatblygu, ac yn dweud sut y bydd y Tasglu Pryfed Peillio, o fewn Llywodraeth Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn bwrw ymlaen â nhw.